

Patrwm cyflwyno: *O fis Hydref i fis Mehefin*

Disgrifiad o'r modiwl

Mae'r gwaith o ddiogelu asedau gwybodaeth yn ategu hyfywedd a phroffidioldeb masnachol pob menter ac effeithiolrwydd sefydliadau'r sector cyhoeddus. Pan ddaw hi'n fater o ddiogelwch gwybodaeth, ni ddylid gadael y cyfan i ffawd. Yn hytrach, dylid ei reoli er mwyn sicrhau ei fod yn darparu camau diogelu effeithlon ac effeithiol ar gyfer asedau gwybodaeth sefydliad. Drwy weithio o fewn sefydliad sy'n gyfarwydd iddynt, mae TM311 yn darparu cyflwyniad i ddiogelwch gwybodaeth yn dilyn cyfres safonau 27000 (yn enwedig 27001 a 27002) a dealltwiraeth manwl, ymarferol o agweddau dethol, gan gynnwys llywodraethiant TG a dadansoddi risg a rheoli diogelwch gwybodaeth. Bydd TM311 yn berthnasol i'r rhai hynny sy'n gweithio mewn sefydliad sy'n canolbwyntio, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ar asedau gwybodaeth gwerthfawr. Bydd cwblhau TM311 yn rhoi'r wybodaeth am y broses a'r ystyriaethau i'r myfyrwyr sydd eu hangen wrth asesu a datblygu diogelwch gwybodaeth sy'n addas at y diben ar gyfer anghenion sefydliad.

At hynny, mae TM311 yn cynnwys y pynciau canlynol:

- Diogelwch gwybodaeth sefydliadol a phersonol
- Gwaith Ymchwil Diogelwch Gwybodaeth: lle cyflwynir sgiliau ymchwilio perthnasol i'r myfyriwr, megis darllen papur academaidd neu ddechrau cronfa ddata llyfryddiaeth a chadw'n agos at y syniadau mwyaf blaengar.
- Proffesiynoldeb: lle bydd y myfyriwr yn dysgu am y materion a'r cymwysterau proffesiynol sy'n ategu gyrfa mewn diogelwch gwybodaeth.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb person gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- profiad ymarferol o Ddiogelwch Gwybodaeth sefydliadol â dealltwiraeth fanwl o'r materion cymdeithasol, proffesiynol a thechnegol sylfaenol;
- gallu i helpu myfyrwyr i ddatblygu eu gwybodaeth yn y pwnc hwn ac i osod y wybodaeth hon yng nghyd-destun ehangach cyd-destun sefydliad.
- profiad o gefnogi myfyrwyr â gweithgareddau ymchwil ar raddfa fach (gan ddeall dyfyniadau, Google Scholar ac adnodd chwilio llyfrgelloedd, gwerthuso papurau ysgolheigaidd, ac ati)
- ymwybyddiaeth o Safonau a deddfwriaeth bresennol sy'n berthnasol i ddiogelwch gwybodaeth.

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- gradd ôl-raddedig berthnasol
- profiad o addysgu Diogelwch Gwybodaeth ar lefel blwyddyn olaf israddedig neu lefel ôl-raddedig
- profiad ar lefel rheoli o asesu risg, ym maes diogelwch gwybodaeth, a nodi datrysiadau technegol

Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw'r fanyleb cyfrifiadur ofynnol ar gyfer y modiwl yn ddigon ar gyfer marcio aseiniadau'n electronig. Byddai'n well cael monitor mawr (17 modfedd, 256 lliw), ac efallai y bydd angen llawer mwy o ofod gwag ar eich disg na'r hyn a argymhellir ar gyfer myfyrwyr.

Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	4
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	4

Nid yw'r strategaeth addysgu ac asesu ar gyfer y modiwl hwn wedi cael ei chymeradwyo eto, ac felly, mae'n bosibl y caiff y wybodaeth ei newid.